| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Llawn** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **9 Gorffennaf 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Yr Aelod Arweiniol dros Dir y Cyhoedd / Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Uwch Beiriannydd, Rheoli Risg Llifogydd** |
| **Teitl:** | **Ymchwiliad i Lifogydd Tachwedd 2012** |

---

## 1. Ynglŷn â beth mae'r adroddiad?

Mae ymchwiliad i'r digwyddiadau llifogydd ledled Sir Ddinbych ym mis Tachwedd 2012 wedi bod yn cael ei gynnal ers mis Chwefror 2013. Mae'r ymchwiliad bellach wedi'i gwblhau, ac eithrio Glasdir, lle mae cymhlethdod y materion sy'n ymwneud â'r digwyddiad llifogydd yn golygu bod yr ymchwiliad yn dal i fynd rhagddo.

## 2. Beth yw'r rheswm dros baratoi'r adroddiad yma?

I ddwyn sylw Aelodau at ganfyddiadau'r ymchwiliad i'r llifogydd, a rhoi diweddariad ar y cynnydd gyda'r ymchwiliad i ddigwyddiad llifogydd Glasdir.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau:

- Yn cymeradwyo gweithredu'r argymhellion a nodir yn Atodiad 2.
- Yn cefnogi'r Cyngor a Chyfoeth Naturiol Cymru mewn ffordd weithredol pan fyddant yn cysylltu â Llywodraeth Cymru i gael cyllid i weithredu'r argymhellion.
- Yn gefnogol i sefydlu Partneriaeth Rheoli Afonydd, a fydd yn dwyn ynghyd yr holl bartneriaid perthnasol i ddatblygu cynlluniau rheoli perygl llifogydd.
- Yn cytuno i dderbyn Rhan 2 o'r Adroddiad Ymchwilio, mewn perthynas â Glasdir, yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 10 Medi 2013.

## 4. Manylion yr adroddiad.

### 4.1

Digwyddodd llifogydd sylweddol mewn nifer o leoliadau ledled Sir Ddinbych ar 26 a 27 Tachwedd 2012. Cafwyd llifogydd mewn tua 500 o adeiladau, yn rhai masnachol a phreswyl, mewn cyfanswm o 12 lleoliad gwahanol. Dan amodau Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mae'r Cyngor yn cynnal ymchwiliad i achosion y llifogydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gynt) yn rhoi cymorth i'r Cyngor gyda'r ymchwiliad. Tarddleoedd y llifogydd oedd prif afonydd, y mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithredu fel yr awdurdod rheoli perygl ar eu cyfer, a dyfrgyrsiau cyffredin, y mae Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel yr awdurdod rheoli perygl ar eu cyfer.

**4.2**

Cafodd yr ymchwiliad ei lansio'n ffurfiol ym mis Chwefror 2013 ac roedd adroddiad arno i fod i gael ei gyflwyno i'r Cyngor ym mis Mai. Bu oedi gyda'r adroddiad o fis Mai oherwydd cymhlethdod a maint yr ymchwiliad i'r ddau ddigwyddiad llifogydd mwy yn Llanelwy a Glasdir. Mae'r ymchwiliad i'r digwyddiad yn Llanelwy bellach wedi'i gwblhau a chaiff ei grynhoi yn Atodiad 2. Fodd bynnag, bydd oedi tan fis Medi cyn cyflwyno'r adroddiad llawn ar ddigwyddiad Glasdir. Mae Amodau Gorchwyl yr ymchwiliad wedi'u hatodi er gwybodaeth (Atodiad 1).

**4.3**

Pwrpas yr ymchwiliad yw egluro pam y digwyddodd y llifogydd, pa mor debygol ydynt o ddigwydd eto a beth, os unrhyw beth o gwbl, y mae angen ei wneud i reoli perygl llifogydd yn briodol yn y dyfodol.

**4.4**

Y meini prawf ar gyfer cytuno ar leoliad ar gyfer ymchwiliad yw:

- Un neu fwy o adeiladau â llifogydd mewnol
- Tarfu ar isadeiledd pwysig, e.e. ffyrdd neu gyfleustodau
- Digwyddiad 'trwch blewyn' arall mewn perthynas a'r naill neu'r llall o'r uchod.

Penderfynwyd peidio â chynnwys y llifogydd cyffredinol ar dir amaethyddol fel rhan o'r ymchwiliad, oni bai fod y digwyddiad llifogydd yn anarferol neu'n annisgwyl. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar lefel genedlaethol ynghylch effaith llifogydd ar dir amaethyddol.

**4.5**

Mae'r ymchwiliad i lifogydd ar gyfer y mwyafrif o leoliadau'n cael ei gynnal gan y Cyngor a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae ymchwilwyr annibynnol wedi cael comisiwn i gynnal yr ymchwiliad i'r llifogydd yn Glasdir, Rhuthun, serch hynny, oherwydd cymhlethdod digwyddiadau yn y lleoliad hwnnw. Gofynnwyd i'r Ymchwilwyr Annibynnol, Dr Jean Venables a Clive Onions, fynd ati hefyd i adolygu canfyddiadau'r Cyngor a Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer yr holl leoliadau eraill yr ymchwilir i'r llifogydd ynddynt. Y lleoliadau yr ymchwilir iddynt yw:

- Llanelwy, gan gynnwys Ffordd Isaf Dinbych
- Rhuddlan, gan gynnwys Lôn Sarn
- Brookhouse, Dinbych
- Llanynys
- Gellifor
- Glasdir, Rhuthun
- Park Place/Stryd Mwrog/Maes Ffynnon, Rhuthun
- Canol Tref Rhuthun
- Llanbedr Dyffryn Clwyd
- Loggerheads
- Corwen
- Glyndyfrdwy

Mae adroddiad ar ganfyddiadau'r ymchwiliad yn amgaeëdig (Atodiad 2)

**4.6**

Mae'r gwaith o ymchwilio i'r llifogydd yn cael ei gydlynu gan Weithgor Ymchwilio i Lifogydd sy'n cynnwys swyddogion o'r Cyngor, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Cefnffyrdd. Hyd yma, mae tri Phapur Briffio Rhanddeiliaid wedi cael eu cyhoeddi ac mae'r rhain wedi'u cynnwys er gwybodaeth (Atodiad 3). Mae cyfarfodydd wedi cael eu cynnal hefyd gyda chynrychiolwyr preswylwyr yn y ddau leoliad mwy lle cafwyd llifogydd yng Nglasdir a Llanelwy.

**4.7**

Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth i fesurau interim i leihau perygl llifogydd tra'i fod yn disgwyl i'r ymchwiliad gael ei gwblhau. O ganlyniad, mae'r gwaith canlynol wedi cael ei wneud:

- Gosod falfiau nad yw dŵr yn dychwelyd drwyddynt i atal llifogydd ar ddraeniau dŵr wyneb yn Brookhouse, Dinbych.
- Yng Nglasdir, tynnu'r dellt diogelwch ar y geuffos 5 blwch, gosod medrydd dŵr dros dro â gallu telemetreg yn sianel y geuffos ac adeiladu llawr caled uwchlaw'r geuffos i'w gwneud yn bosib cael mynediad i waredu malurion yn ystod llifogydd.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae gan lifogydd y potensial i achosi amhariad difrifol a maith i'r cymunedau y maent yn effeithio arnynt. Mae deall a rheoli perygl llifogydd lleol yn ategu blaenoriaeth y Cyngor i ddatblygu'r economi leol.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Gallai cost gweithredu'r argymhellion a nodwyd gan yr ymchwiliad mewn perthynas â llifogydd o ddyfrgyrsiau cyffredin fod hyd at £1 miliwn. Ni ellir cwrdd â'r gost yma o fewn cyllideb bresennol y Cyngor. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru, sy'n datgan mai ei nod yw lleihau'r risg i bobl trwy roi anogaeth i ddarparu mesurau diogelu rhag llifogydd, bwerau i roi grant dan y Ddeddf Draenio Tir. Gyda hyn mewn golwg, mae'n bwysig bod y Cyngor yn ceisio cymorth cyllido gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r argymhellion.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn amcangyfrif bod cynllun i leihau perygl llifogydd yn Llanelwy i lefel dderbyniol yn debygol o gostio dros £5 miliwn. Dylai'r Cyngor geisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd blaenoriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i ddarparu cyllid cynnar ar gyfer cynigion Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â Llanelwy ac unrhyw argymhellion eraill sy'n deillio o'r ymchwiliad mewn perthynas â llifogydd o brif afonydd.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd mewn perthynas â'r penderfyniad?

Nid oes Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gynnal.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi cael eu cwblhau?

Hyd yma mae tri Phapur Briffio Rhanddeiliaid wedi cael eu cynhyrchu i'w rhannu gyda'r holl gyfranogion. Mae cyfarfodydd cyswllt rheolaidd wedi bod yn digwydd gyda chynrychiolwyr preswylwyr yng Nglasdir. Mae dau gyfarfod wedi cael eu cynnal gyda chynrychiolwyr preswylwyr yn Llanelwy, ac mae cyfarfodydd pellach yn yr arfaeth.

Cafodd canfyddiadau interim yr ymchwiliad eu trafod gyda'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar 25 Ebrill 2013.

## 9. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Adran 19 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn rhoi i'r Cyngor fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol y cyfrifoldeb am ymchwilio i ddigwyddiadau llifogydd.

Mae Adran 10 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i ddatblygu, cynnal a monitro strategaeth leol i reoli perygl llifogydd.

Mae Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi'r pŵer i'r Cyngor wneud unrhyw beth sy'n debygol o hybu neu wella lles cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol ardal y Cyngor.